

# Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin Yr Hyn a Gyflawnwyd yn 2015

Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin yn bartneriaeth o gyrff sy'n ymwneud â gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd y sir ac fe'i hwylusir gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor.

Mae amgylchedd naturiol Cymru yn cynnal amrywiaeth o fywyd gwyllt sy'n byw yma. Yn Sir Gaerfyrddin mae'r cynefinoedd yn amrywio o arfordir i fynyddoedd a rhostiroedd a dolydd, ac mae'r rhain i gyd yn cyfrannu i'n profiad o fyw yma a hefyd i economi'r sir, i iechyd a lles ein dinasyddion, i'r ddarpariaeth bwyd, dŵr ac aer glân ac i'n diwylliant lleol.

Yn 2013 roedd yr [Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur](#) wedi dangos bod 60% o rywogaethau'r DU a astudiwyd wedi dirywio yn y degawdau diweddar. Roedd yr [ymateb](#) i'r adroddiad hwn gan gyrff cadwraeth yn dangos ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn gweithredu camau sy'n cefnogi, yn gwella ac yn adfer natur yng Nghymru.

• Mae amgylchedd naturiol iach yn rhan hanfodol o Sir Gaerfyrddin gynaliadwy, gadarn ac unigryw. Mae gwaith y partneriaid, a'r prosiectau a weithredir ganddynt, yn helpu i gyflawni canlyniadau sy'n cyfrannu i amcanion a chanlyniadau nifer o strategaethau a chynlluniau yn y sir. Mae'r rhain yn cynnwys:

• [Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin](#); • [Strategaeth Gymunedol Integredig 2011-16 Sir Gaerfyrddin](#); • [Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Gaerfyrddin](#)

Gall gweithredoedd cyrff cyhoeddus o fewn y Bartneriaeth gyfrannu i ddarparu deddfwriaeth a strategaethau allweddol sy'n dod o Lywodraeth Cymru ac sy'n deddfu ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy er mwyn sicrhau lles Cymru yn y tymor hir.

- [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)2015](#) - ei nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru
- Bydd [Bil yr Amgylchedd \(Cymru\)](#), pan fydd yn cael cydsyniad (gwanwyn 2016), yn rhoi proses ar waith i gynllunio ac i reoli ein hadnoddau naturiol. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, geisio 'cynnal a gwella bioamrywiaeth' o ran arfer y swyddogaethau hynny'n briodol a thrwy wneud hynny, 'hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'.
- Y Cynllun Adfer Natur fydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar fioamrywiaeth ar gyfer Cymru gan weithio i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a gwella cadernid ein hecosystemau.

Mae Partneriaethau Bioamrywiaeth Lleol yn allweddol o ran helpu i ddarparu ffocws lleol a chyflawni'r holl amcanion hyn.

Gall pobl leol wneud gwahaniaeth hefyd ac mae gan yr holl bartneriaid rôl i'w chwarae o ran codi ymwybyddiaeth a gweithio gyda chymunedau ar brosiectau sy'n fanteisiol i fioamrywiaeth - gan gynnwys y bobl sy'n cymryd rhan ynddynt!

Crynodeb yw hwn o'r hyn a gyflawnwyd gan y partneriaid yn 2015, yn aml drwy gydweithio i warchod ac i wella'r ystod amrywiol o gynefinoedd a rhywogaethau sydd yn Sir Gaerfyrddin.



WEST WALES BIODIVERSITY INFORMATION CENTRE  
CANOLFAN WYBODAETH BIOAMRYWIAETH  
GORLLEWIN CYMRU



Bat Conservation Trust



Clwb Adar Sir Gaerfyrddin  
Carmarthenshire Bird Club

LLANELLI NATURALISTS  
NATURAETHWYR LLANELLI



YR YMDIRIEDOLAETH  
GENEDLAETHOL  
THE NATIONAL TRUST

amphibian and reptile  
conservation



CYMRU  
Sir Gâr  
Carmarthenshire  
County Carmarthenshire

Partner/ iaid	Gweithgaredd	Cyfrannu i:	Rhywogaeth	Cynefin	Gwirfoddo- lwywr	Strategaethau i'r Cyngor	Llywodraeth Cymru Polisi /Deddfwriaeth
CSC/NBGW Ecolegwyr	Sefydlwyd Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin yn 2015. Ei nod yw ysbrydoli sefydlu cymuned sirol sy'n cefnogi ei gilydd i gadw a chyfoethogi ein dolydd llawn bywyd gwyllt, boed fawr neu fach, ledled Sir Gaerfyrddin. Cynhaliwyd teithiau cerdded, sgysiau, ymweliadau safle eleni ac fe sefydlwyd <a href="#">gwefan</a> grŵp.		✓	✓	✓	✓	✓
CSC/CNC/ ARC/ Buglife/ Gwirfoddo lwywr	Morfa Berwig, Bynie - mae gwaith rheolaeth wedi'i ariannu gan CNC yn mynd rhagddo ar y safle llawn bywyd gwyllt hwn sy'n eiddo i'r Cyngor i wella rhai o'r cynefinoedd tir llwyd ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn-cefn, ymlusgiaid ac amffibiaid, rheoli ffosydd ar gyfer llygod dŵr, a rheoli prysgwydd a ffensio i gynnal a chadw porfeydd agored. Gobeithiwn wneud y safle hwn yn Warchodfa Natur Leol.		✓	✓	✓	✓	✓
Plantlife/ CSC/ CNC/BSBI/ MoD	Bydd y prosiect hwn a ariennir gan WREN ar dwyni tywod Pen-bre a Thyrchfeydd Pentywyn yn parhau i weithio i gynyddu'r ganran o dwyni agored yn y systemau twyni pwysig hyn yng Nghymru. Trwy gael gwared â helyg y môr bydd y prosiect yn helpu rhywogaethau bregus o blanhigion, ffwng ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn sy'n defnyddio'r twyni arloesol hyn.		✓	✓		✓	✓
CSC/Gwir- foddolwyr	Mae CSC yn gweithio'n rheolaidd gyda gwirfoddolwyr Mencap Cymru ar ymgyrchoedd glanhau traethau i helpu lleihau sbwriel morol – helpu'r cynefinoedd traeth gwarchoddedig a helpu'r gwirfoddolwyr! Mae llawer o'r partner fudiadau yn gweithio gyda gwirfoddolwyr sy'n gwneud cyfraniad amhrisiadwy i brosiectau.		✓	✓	✓	✓	✓
CNC/WTS WW/CSC/ Gwirfoddo- lwywr/BASC	Cafodd tua 450 o lygod dŵr eu rhyddhau yn ardal Pembre dros y 2 flynedd ddiwethaf yn rhan o Strategaeth Llygod Dŵr CNC ar gyfer de Cymru. Trwy ddychwelyd llygod dŵr i gynefin addas yn ardal Cydweli/Pembre, y gobaith yw y byddant yn creu cyswllt â phoblogaethau pwysig eraill yn Llanelli a Thalacharn. Ynghyd â rheoli cynefinoedd a rheoli minc, dylai hyn arwain at welliant amlwg yn hyfywedd y rhywogaeth dan fgythiad hwn i'r dyfodol.		✓	✓	✓	✓	✓



Partner/ iaid	Gweithgaredd	Cyfrannu i:	Rhywogaeth	Cynefin	Gwirfoddo- lwyf	Strategaethau r Cyngor	Llywodraeth Cymru Polisi /Deddfwriaeth
CSC/BC/CNC /WTSWW	Mae gwaith yn parhau ar brosiect a ddatblygwyd i wrthwneud effeithiau datblygiadau yn ardal Cross Hands ar gynefin y brith y gors gwarchoddedig. Defnyddir cyfraniadau o geisiadau cynllunio i brynu neu reoli tir o fewn cwmpas y glöyn byw. Eleni fe sefydlwyd pori mewn safleoedd ac fe osodwyd ffensio a chyflenwadau dŵr hanfodol. Mewn safleoedd eraill gwnaethpwyd gwaith rheoli cynefin fel y gall pori gychwyn y flwyddyn nesaf.		✓	✓		✓	✓
Coed Cymru	Mae swyddogion Coed Cymru (CC) yn parhau i gynnig cymorth a chyingor mewn nifer fawr o safleoedd coetir gwahanol, gan gynnwys cynlluniau a safleoedd Coetiroedd Glastir a chanddynt glefyd onnen Chalara neu glefyd llarwydden Phytophthora. Darparodd Cronfa Natur Llywodraeth Cymru dros £62,000 ar gyfer gwaith ar 30 cynllun Rheoli Pridd a Dŵr Llywodraeth Cymru ledled Sir Gaerfyrddin. Creodd swyddogion y Cyngor Sir gynlluniau ar gyfer y gwaith hwn, gan gynnwys ar gyfer gwregysau cysgod, adfer perthi, ffensio parthau torlannol a gwneud gwelliannau i adeiladau a buarthau fferm i atal dŵr brwnt rhag llygru dyfrgyrsiau.			✓		✓	✓
GFGC	Denodd Diwrnod Blodau Gwyllt Cymru a Diwrnod Ffwng Cymru gannoedd o ymwelwyr i ymweld â dolydd tir isel yr Ardd. Trwy deithiau cerdded tywys ar flodau gwyllt, cacynnod, gloynnod byw a ffwng, ynghyd â gweithgareddau i'r teulu ac arddangosiadau celf a gwyddonol, cafodd cynulleidfaoedd gyfleoedd i ymddiddori yn a dysgu am fioamrywiaeth y dolydd.		✓	✓	✓	✓	✓
CSC/ cymunedau lleol/ partneriaid LBAP	Gan weithio'n agos â chymunedau, bydd prosiect peilot wedi'i ariannu gan CNC yn datblygu cysyniad cynlluniau rheoli adnoddau naturiol lleol. Wrth i gymunedau ymgysylltu â'r prosiect, bydd y prosiect yn adnabod a mapio adnoddau naturiol a'r seilwaith gwyrdd mewn aneddiadau ac yn agos atynt. Gyda chymunedau bydd yn anelu hefyd i ddatblygu ffordd gynaliadwy o ddiogelu a rheoli'r ardaloedd hyn.		✓	✓	✓	✓	✓



Partner/ iaid	Gweithgaredd	Cyfrannu i:	Rhywogaeth	Cynefin	Gwirfoddo- lwwr	Strategaetha u'r Cyngor	Llywodraeth Cymru Polisi /Deddfwriaeth
WWBIC/ Cofnodwyr/y cyhoedd/LBAP partneriaid/ BSBI	Hyd yn hyn eleni, cofnodwyd 1038 o rywogaethau planhigion o 2170 o leoliadau gwahanol yn y sir gan y BSBI. Bydd y cofnodion hyn yn cyfrannu at gynhyrchu atlas planhigion newydd y BSBI ac at Blanhigion Sir Gaerfyrddin. Mae llawer o bobl a mudiadau yn cofnodi bywyd gwylt yn y sir ac mae'r data hwn yn amhrisiadwy. Er enghraifft, trwy godi ymwybyddiaeth yn y 5 mlynedd diwethaf, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cofnodion newydd ar gyfer y cen bardd Selsig prin <i>Usnea articulata</i> yn y sir. Y Ganolfan Gofnodi Leol (WWBIC) yw'r storfa ar gyfer yr holl gofnodion hyn.		✓		✓	✓	✓
CRT/Coed Cymru/ Gwirfoddolwyr	Gweithiodd Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin gyda Coed Cymru ar brosiectau i blannu coed ar hyd y Doethie ac isafonydd eraill y Tywi. Ymhen amser bydd y rhain yn helpu cysgodi'r dŵr a bydd y coed hefyd yn helpu sefydlogi'r glannau, darparu cynefin ar gyfer rhywogaethau a darparu bwyd i bysgod trwy'r gwasarn dail.		✓	✓	✓	✓	✓
Ymddiriedolaeth Coetiroedd/ Gwirfoddolwyr	Mae prosiect Ymddiriedolaeth Coetiroedd yn Ffos Las yn rhan o'u Prosiect Coetiroedd Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Yma bydd coed yn cael eu plannu ar 50 Ha dros gyfnod o 20 mlynedd, ynghyd â pherthi, dolydd, creu pyllau dŵr a llwybrau cerdded. Mae'r safle'n cynnig cyfleoedd i wella bioamrywiaeth lleol, ymgysylltu â phobl leol a gweithio gyda chontractwyr lleol.		✓	✓	✓	✓	✓
WTSWW/ Partneriaeth Wiwerod Coch Canolbarth Cymru/ Gwirfoddolwyr	Mae'r swyddog MWRSP yn gweithio gyda phartneriaid ar draws tair sir i geisio sicrhau nad yw gweithgareddau coedwigaeth yn cyfrannu at, nac yn arwain at, ostyngiad yn amrediad a dosbarthiad y wiwer goch neu ei chynefin yn y Canolbarth. Defnyddiwyd camerâu hirbell i recordio gwiwerod coch yn y coedwigoedd ac fe grëwyd gwefan ar gyfer y prosiect. Mae gwirfoddolwyr lleol yn helpu gyda rheoli gwiwerod llwyd.		✓		✓	✓	✓



Partner/ iaid	Gweithgaredd	Cyfrannu i:	Rhywogaeth	Cynefin	Gwirfoddo- lwmr	Strategaetha u'r Cyngor	Llywodraeth Cymru Polisi /peddfwriaeth
CSC / Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru/ Prifysgol Abertawe/ Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed	Mae partneriaeth dan arweiniad CSC wedi cael £43,000 o Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect sy'n parhau â'r gwaith sy'n digwydd ar bum cors ar diroedd comin ger Brechfa a Llanfynydd. Bydd y prosiect yn ymchwilio i hanes botanegol y mawnogydd, yn cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynefinoedd a rhywogaethau corsydd, yn bwrw golwg ar y modd roedd pobl yn defnyddio'r safleoedd yn y gorffennol, ac yn cymryd camau i warchod y cynefinoedd pwysig hyn i'r dyfodol.		✓	✓	✓	✓	✓
CSC/Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru	Gan gydweithio â Chanolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru, mae'r Cyngor yn datblygu Safleoedd o Bwys ar gyfer Cadwraeth Natur, sef ardaloedd sy'n gyforiog o fywyd gwyllt, ac sy'n cael eu clustnodi a'u dewis am eu gwerth o ran bioamrywiaeth yn lleol. Bydd y gwaith hwn yn sail i brosiectau yn y dyfodol. Caiff y safleoedd eu cydnabod gan yr Awdurdod Lleol a rhoddir sylw iddynt wrth ystyried ceisiadau cynllunio.		✓	✓		✓	✓
Gwarchod Glöynnod Byw/ Gwirfoddolwyr	Yn sgil y gwaith sydd wedi ei wneud gan Warchod Glöynnod Byw a gwirfoddolwyr yn Nyffryn Aman clustnodwyd safleoedd newydd, a llawer mwy o gynefinoedd addas, ar gyfer brithegion y gors. Golyga hyn ei bod yn debygol y gellir cysylltu'r boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin â'r boblogaeth yn Rhondda Cynon Taf! O ran cyfran mae mwy o safleoedd brithegion y gors yn Sir Gaerfyrddin nag yn unman arall yng Nghymru, ac felly mae gwneud gwaith cadwraeth yma yn hollbwysig o ran goroesiad y rhywogaeth yng Nghymru.		✓	✓	✓	✓	✓



Partner/ iaid	Gweithgaredd	Cyfrannu i:	Rhywogaeth	Cynefin	Gwirfoddo- lwyf	Strategaetha u'r Cyngor	Llywodraeth Cymru Polisi /Deddfwriaeth
Cyfoeth Naturiol Cymru/ Menter Cwm Gwendraeth	Mae Menter Cwm Gwendraeth yn cydweithio â phlant lleol er mwyn casglu hadau bywyd gwyllt yng nghyffiniau'r Mynydd Mawr i'w tyfu yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Yna ar ôl i'r hadau egino bydd y plant yn helpu i blannu'r eginblanhigion mewn cynefinoedd addas. Mae'r prosiect yn hoelio sylw ar blanhigion peillio a fydd yn gynhaliaeth i frithegion y gors.		✓	✓	✓	✓	✓
CSC/CNC/ ecolegwyr	Mae'r Cyngor, yn gweithio gydag ecolegwyr lleol, wedi cynnal neu gyfrannu at gyfres o sesiynau hyfforddiant ar rywogaethau gwarchoddedig. Cafodd swyddogion a chontractwyr sesiwn ar werth cynefinoedd minffyrdd. Dysgodd swyddogion yn gweithio ar brosiectau tai am ystlumod, a dysgodd peirianwyr pontydd am ddyfrgwn ac ystlumod mewn sesiynau a drafododd datblygu protocolau newydd ar gyfer gweithio. Cynhaliodd ecolegydd lleol sesiwn ar bathewod ar gyfer ecolegwyr eraill a rheolwyr tir ac yn 2016 bydd y Cyngor a CNC yn trefnu sesiwn ar lygod dŵr ar gyfer swyddogion y Cyngor.		✓	✓		✓	✓
WWT	Yn ystod 2015 gwnaed gwaith ym Mhenclacwydd i adfer 800m o ffosydd er budd llygod pengrwn y dŵr a mathau eraill o fywyd gwyllt. Cafodd gwaith monitro blynyddol ei wneud unwaith eto ar y Safle Allweddol Cenedlaethol hwn ar gyfer llygod pengrwn y dŵr. Mae'r gwaith rheoli coed a phrysgwydd, sy'n cael ei wneud dros gyfnod hir, yn parhau gyda golwg ar adfer llecynnau lle gall cornchwiglod ac adar gwlyptir eraill fagu. Mae cynllun prawf ar waith ar y warchodfa o ran defnyddio peiriant chwistrellu dŵr twym i drin planhigion dŵr goresgynnol. Mae'r warchodfa'n dal i fod yn safle pwysig i adar gwlyptir sy'n gaeafu yno neu sy'n galw yno ar eu taith fudo.		✓	✓		✓	✓



Mae [Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin](#) yn cynnwys y sefydliadau canlynol: [Cyngor Sir Gaerfyrddin](#), [Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru](#), [Cyfoeth Naturiol Cymru](#), [Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar](#), [Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir](#), [Clwb Adar Sir Gaerfyrddin](#), [Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru](#), [Gwarchod Glöynnod Byw](#), [Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin](#), [Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol](#), [Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain](#), [Naturiaethwyr Llanelli](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod](#), [Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru](#), [Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid](#)